

SL(5)373 – Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn (ac eithrio rheoliad 3(6)) wedi eu gwneud o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i geisio ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 3(6) wedi ei wneud o dan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (Deddf 1990).

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ym maes bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd a phennu lefel y finyl clorid a ryddheir gan y deunyddiau a'r eitemau hynny.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae rheoliad 3(6) wedi ei wneud o dan adran 16 o Ddeddf 1990.

Mae adran 48(4A) o Ddeddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan Ddeddf 1990.

Nid yw'r rhagarweiniad i'r Rheoliadau yn nodi bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw gyngor o'r fath. Er i Lywodraeth Cymru gadarnhau ei bod wedi rhoi sylw i'r cyngor hwnnw ac y bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hynny, nodwn na fydd y rhagarweiniad i'r Rheoliadau yn cael ei ddiwygio felly.

Yn ein barn ni, mae'n arfer deddfwriaethol da i gyfeirio yn y rhagarweiniad i'r Rheoliadau at unrhyw amodau sy'n gymwys cyn y gellir gwneud y Rheoliadau.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau uchod.

